Cynnig Gofal Plant Cymru
The Childcare Offer for Wales
Addysg gynnar a gofal • Early education and care

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Rydym eisiau clywed gan deuluoedd sydd wedi elwa o Gynnig Gofal Plant Cymru.

Rydym yn chwilio am deuluoedd sydd eisoes wedi elwa o Gynnig Gofal Plant Cymru sy’n fodlon rhannu eu stori fel y gallwn barhau i roi’r si ar led am y Cynnig.

## Ydych chi’n gwybod am rywun?

Os ydych chi’n gwybod am deulu sy’n derbyn y Cynnig ar hyn o bryd neu wedi’i dderbyn yn ddiweddar, ac yn credu y byddent yn fodlon rhannu eu stori, hoffem glywed gennych.

Rydym eisiau cael cymaint o amrywiaeth â phosibl, fel ein bod yn rhannu straeon o bob rhan o Gymru, gan gynnwys teuluoedd o bob cefndir fel teuluoedd LGBTQ a Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, teuluoedd Cymraeg eu hiaith, teuluoedd rhiant sengl a chyfunol ac ati. Bydd pob teulu sy’n cymryd rhan yn cael taleb £50 am eu hamser.

Rhowch ychydig o wybodaeth sylfaenol i ni am y rhiant/rhieni yr hoffech ei enwebu/eu henwebu:

- Enw
- Lleoliad
- Galwedigaeth
- Pryd y defnyddiodd y Cynnig ar gyfer ei blentyn/plant?
- Siaradwr Cymraeg?
- Manylion cyswllt y rhiant/rhieni (cyfeiriad e-bost/rhif ffôn symudol)
- Eich manylion cyswllt chi (cyfeiriad e-bost/rhif ffôn symudol)

Peidiwch â phoeni os nad oes gennych yr holl fanylion. Gallwn gasglu’r rhain pan fyddwn yn siarad â’ch rhiant/rhieni enwebedig. Bydd yr holl wybodaeth a roddwch yn cael ei thrin yn unol â chanllawiau’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a’r hysbysiad preifatrwydd a amlinellir isod.

**Gallwch anfon enwebiadau at shauna.jones@freshwater.co.uk**

Diolch am ein cynorthwyo â hyn. Gyda’n gilydd, gallwn roi gwybod i gynifer o bobl â phosibl fod Cynnig Gofal Plant Cymru ar gael i helpu rhieni gyda chost gofal plant.

# Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)
# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD – Cynnig Gofal Plant Cymru

Hoffai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â darparwyr gofal plant, rhieni ac Awdurdodau Lleol i gasglu eu barn ar Gynnig Gofal Plant Cymru. Bydd adborth ynghylch y Cynnig yn cael ei ddefnyddio fel astudiaethau achos i'w defnyddio mewn deunyddiau marchnata.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Freshwater – asiantaeth greadigol - i ymgymryd â'r gwaith hwn.

Er mwyn ymgymryd â'r broses ymgysylltu hon, hoffem siarad â rhanddeiliaid ag anghenion penodol a chael rhywfaint o ddata personol ganddynt.

Fel rhan o'n cylch gwaith fel rheolydd data, mae Llywodraeth Cymru a Freshwater yn defnyddio'r delweddau a'r wybodaeth a gaiff at y dibenion isod. Cyflawnir y dibenion hyn gyda chydsyniad clir gennych chi y cawn brosesu eich data personol (llun/clip fideo / adborth) at ddiben penodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â hyn o dan ei dyletswydd Tasg Gyhoeddus.

**Y dibenion yw:**
Cyhoeddiadau, Cyfryngau Cymdeithasol, Gwefannau, Cyflwyniadau ac Arddangosfeydd. Bydd yr wybodaeth a ddarperir yn cael ei defnyddio i greu astudiaethau achos i'w defnyddio wrth farchnata Cynnig Gofal Plant Cymru. Bydd dyfyniadau a ddarperir gennych yn cael eu defnyddio ar gyfer marchnata ac wrth gyfathrebu i rannu gwybodaeth ag eraill am fanteision y Cynnig.

**Â phwy y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth?**
Ni fydd gwybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw gan Freshwater yn cael ei rhannu â thrydydd partïon. Bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych at ddibenion marchnata yn cael ei rhannu fel y nodir yn adran 1. Dyma'r wybodaeth a gaiff ei chyhoeddi: Enw cyntaf, delweddau / clipiau fideo a recordiwyd ac unrhyw ddyfyniadau a ddarparwyd gennych chi. Ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth fel cyfeiriadau neu fanylion cyswllt.

**Am ba mor hir y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?**
Bydd Freshwater yn cadw eich data ar ffeil i'w defnyddio at y dibenion a nodir yn adran 1 ac yn dileu data personol 6 wythnos wedi diwedd yr ymgyrch.

**Pa mor ddiogel yw eich data personol?**
Bydd Freshwater yn cadw eich data personol ar weinydd diogel mewn ardal sydd wedi'i chyfyngu i dîm y prosiect. Mae'r wybodaeth bersonol a roddir i Freshwater yn cael ei storio ar weinydd diogel bob amser. Dim ond nifer cyfyngedig o pobl sy'n gweithio ar y prosiect hwn sy'n gallu cael mynediad at y data. Dim ond at y dibenion a nodir yn adran 1 y bydd Freshwater yn defnyddio'r data hyn. Mae gan Freshwater ardystiad Cyber Essentials.

**Eich hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth/data**
O dan y GDPR, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a roddwch yn rhan o'r ymgyrch hon ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru:

- Cael mynediad i'r data personol yr ydym yn eu prosesu amdanoch;
- Ei gwneud yn ofynnol inni gywiro unrhyw wallau yn y data hynny;
- Gwrthwynebu'r prosesu neu gyfyngu arno (o dan rai amgylchiadau);
- Gofyn i'ch data gael eu 'dileu' (o dan rai amgylchiadau);
- Cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Llio Angharad, Uwch Reolwr Cyfathrebu a Marchnata, Cyfathrebu Digidol a Strategol,
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
Llio.angharad@llyw.cymru

Y Swyddog Diogelu Data, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma'r manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd
Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow.
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.gov.uk